**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Cyd-Bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 13 Mehefin 2024 am 10.30 am**

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorwyr:**

| | |
|---|---|
| D H Hopkins | Cyngor Abertawe |
| Steve Hunt | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Paul Miller | Cyngor Sir Benfro |
| Darren Price | Cyngor Sir Gar |

**Cynrychiolwyr Cyfetholedig Heb bleidlais:**

| | |
|---|---|
| Elwen Evans | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Chris Foxall | Cadeirydd dros dro Bwrdd Strategaeth Economaidd Abertawe |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Steven TO Aldred-Jones | Cyngor Sir Gâr |
| Jonathan Burnes | Cyfarwyddwr (Dinas-ranbarth Bae Abertawe) |
| Oonagh Gavigan | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Matthew Holder | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |
| Gareth Jones | Archwilio Cymru |
| Karen Jones | Prif Weithredwr (Cyngor Castell-nedd Port Talbot) |
| Allison Lowe | Cyngor Abertawe |
| Chris Moore | Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor (Cyngor Sir Gâr) |
| Rachel Moxey | Cyngor Sir Benfro |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe) |
| Debbie Smith | Dirprwy Swyddog Monitro (Cyngor Abertawe) |
| Wendy Walters | Prif Weithredwr (Cyngor Sir Gâr) |
| Ian Williams | Dinas-ranbarth Bae Abertawe |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Y Cynghorydd(wyr) Jon Harvey (Cyngor Sir Benfro) a/ac R C Stewart (Cyngor Abertawe)
Paul Boyle (Prifysgol Abertawe)
William Bramble (Prif Weithredwr (Cyngor Sir Penfro))

**1 Ethol Cadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas Ranbarth Bae Abertawe.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

**2 Pro tem ethol Cadeirydd.**

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd D Price yn Gadeirydd Dros Dro.

**Bu'r Cynghorydd D Price (Cadeirydd Dros Dro) yn llywyddu**

**3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**4 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2024 fel cofnod cywir.

**5 Cyhoeddiad/Cyhoeddiadau'r Cadeirydd.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau.

**6 Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

**7 Aelodau Cyfetholedig Cyd-bwyllgor Dinas-ranbarth Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Swyddog Monitro Bargen Ddinesig Bae Abertawe (BDdBA) adroddiad i adolygu Aelodau cyfetholedig argymelledig y Cyd-bwyllgor a chytuno arnynt.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe:

1) Yn cymeradwyo penodiad Dr Neil Wooding fel Aelod Cyfetholedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

**8 Archwilio Cymru - Asesu Sicrwydd a Risg 2023-24.**

Cyflwynodd Gareth Jones, Archwilio Cymru, adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau'r adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru - Asesiad Sicrwydd a Risg - yn Atodiad A ac i gytuno ar y Cynllun Gweithredu yn Atodiad B.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe:

1) Yn derbyn Asesiad Sicrwydd a Risg Archwilio Cymru yn Atodiad A;
2) Yn cytuno ar y Cynllun Gweithredu yn Atodiad B.

**9 Adroddiad Argymhellion Archwilio Mewnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe 2023-24.**

Cyflwynodd Matthew Holder, Rheolwr Archwilio, Risg a Gwrth-Dwyll, adroddiad i ystyried canfyddiadau a chamau gweithredu adolygiad Archwilio Mewnol 2023-24 i'r Portffolio BDdBA.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe:

1) Yn cymeradwyo canfyddiadau a chamau gweithredu adolygiad Archwilio Mewnol 2023-24 i Bortffolio BDdBA yn Atodiad A.

**10 Y Diweddaraf am Gartrefi fel Gorsafoedd Pwer. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd Oonagh Gavigan, Rheolwr Prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer adroddiad "Er Gwybodaeth" a ategwyd gan gyflwyniad Powerpoint i hysbysu'r Cyd-bwyllgor am gynnydd y prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.

**11 Adroddiad Monitro Chwarterol Bargen Ddinesig Bae Abertawe. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd Jonathan Burns, Cyfarwyddwr BDdBA adroddiad "er gwybodaeth" i hysbysu'r Cyd-bwyllgor ynghylch Adroddiad Monitro Chwarterol BDdBA ar gyfer Portffolio BDdBA a'i rhaglenni/phrosiectau cyfansoddol.

**12 Fframwaith Gwerthuso Bargen Ddinesig Bae Abertawe.**

Cyflwynodd Ian Williams, Rheolwr Datblygu Portffolio BDdBA adroddiad i geisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar gyfer Fframwaith Gwerthuso BDdBA a oedd yn manylu ar y trefniadau gwerthuso ar gyfer y Portffolio a'i raglenni a phrosiectau cyfansoddol yn Atodiad A.

**Penderfynwyd** bod Cyd-bwyllgor Dinas-Ranbarth Bae Abertawe:

1) Yn cymeradwyo Fframwaith Gwerthuso Bargen Ddinesig Bae Abertawe sydd ynghlwm yn Atodiad A.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.34 am

**Cadeirydd**